Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cydrannu 2020/21

## Menter strategol Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu rhwydweithiau

Medi 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn awyddus i ariannu syniadau i greu rhwydweithiau newydd a chryfhau'r rhai sydd gennym eisoes.

Wrth inni geisio ymdopi â'r coronafeirws, mae'n mynd yn bwysicach inni gysylltu ar draws y sector a chefnogi rhannu a chyfnewid gwybodaeth.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo ac atgyfnerthu amrywiaeth a chynhwysiant sector y celfyddydau ac ehangu ymgysylltiad â chymunedau amrywiol. Rydym ni am glywed pob llais a sicrhau bod pob bywyd o bwys. Rhaid i'n sector gael ei chyfoethogi gan y cymunedau a'r dadleuon sy'n deillio o'r ymgyrchoedd, Mae bywyd pobl dduon o bwys ac Ni chawn ein dileu.

Rydym ni'n agored i wahanol syniadau, gan gynnwys, er enghraifft:

- ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a'u datblygu
- sicrhau clywed lleisiau amrywiol ar draws y sector (yn enwedig cefnogi rhwydweithiau o bobl greadigol sy'n bobl dduon, pobl liw heb fod yn ddu a phobl anabl)
- cynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau, yn enwedig i'r rhai wedi'u datgysylltu am nifer o resymau, gan gynnwys yn economaidd, cymdeithasol a daearyddol (ond am resymau eraill hefyd)
- datblygu modelau ariannu cynaliadwy i gynnal y fath weithgarwch

Mae rhwydweithiau'n gallu bodoli ar bob ffurf a siâp – ffurfiol, anffurfiol, bach a mawr – gan gyfarfod yn rheolaidd neu'n fympwyol. Nid oes dim rhaid iddynt fod yn wyneb yn wyneb, mae modd eu cynnal ar-lein. Ond bydd angen ichi gydymffurfio'n llawn â chyfyngiadau cymdeithasol y coronafeirws.

Mae rhwydweithiau'n bwysig i hwyluso:

- rhannu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd
- darparu cymorth
- annog cydweithio
- rhannu adnoddau
- trafod syniadau

## Cefnogi rhwydweithiau newydd a chyfredol

Rydym ni am annog creu rhwydweithiau newydd sy'n cynnull pobl a sefydliadau sydd ag anghenion a diddordebau'n gyffredin. Teimlwn fod y rhain yn debycach o ffynnu os ydynt yn tyfu'n naturiol yn y sector yn hytrach na chael eu creu gan gorff arall, fel y Cyngor.

Felly rydym ni'n trosglwyddo'r cyfle i chi. Gallwn roi symiau bach untro o arian tuag at:

- costau cyfarfodydd untro i gynnull unigolion neu sefydliadau sy'n rhannu diben cyffredin gyda'r bwriad o greu rhwydwaith

- costau sefydlu fforymau/cymunedau ar-lein

Nid ydym ni am eithrio'r rhwydweithiau presennol. Rydym ni'n awyddus i archwilio gyda nhw ffyrdd o ddatblygu eu cefnogaeth i'w haelodau. Gallai hyn arwain, er enghraifft, at roi rhywfaint o arian tuag at ddigwyddiad untro a fydd yn gwella gallu'r grŵp i gynyddu ei aelodaeth.

Rydym ni'n agored i gefnogi gwahanol fathau o rwydweithiau: grwpiau lleol/rhanbarthol a grwpiau dan arweiniad artistiaid sy'n gweithio mewn celfyddyd arbennig neu weithgarwch penodol. Wrth ddatblygu rhwydweithiau newydd, rhaid dangos tystiolaeth o bwrpas cyffredin clir neu angen cyffredin ymhlith darpar aelodau. Rhaid hefyd fod yn hyderus y bydd y gweithgarwch wedyn yn hunangynhaliol.

## Ymgeisio am arian

Mae gennym arian ar gyfer prosiectau untro bach yn 2020/21. Gallwn gynnig hyd at £2,000 i bob prosiect. **Rhaid i'ch prosiect orffen cyn diwedd Mawrth 2021.**

I ymgeisio, rhaid llenwi ffurflen gais fer. **Nid yw'r arian yn dod o'r Loteri Genedlaethol, felly rhaid cysylltu â ni i gael dolen i'r ffurflen. Fel arall, ni allwn brosesu eich cais. Mae manylion cyswllt ar y diwedd.**

Rhaid hefyd uwchlwytho ychydig o wybodaeth ategol, gan gynnwys cyllideb brosiect a chynnig byr (llai na dwy ochr A4) sy'n amlinellu'n glir fanteision y prosiect, gan gynnwys:

- manylion cyswllt ar gyfer yr unigolyn/sefydliad sy'n arwain y cynnig

- disgrifiad o'r hyn rydych chi am ei wneud

- y rhesymau pam yr ydych chi am ei wneud

- tystiolaeth o'r angen am y prosiect

- nifer y sefydliadau/unigolion y rhagwelwch y byddant am gymryd rhan a sut y byddwch chi’n denu aelodau
- manteision cymryd rhan
- manylion y costau yr hoffech inni gyfrannu atynt

Byddwn ni’n ariannu 100% o gostau eich prosiect ar yr amod nad ydynt yn fwy na £2,000. Dyma'r math o gostau y gallwn gyfrannu atynt:

- llogi ystafell
- arlwyo
- ffioedd siaradwyr/hwyluswyr a threuliau
- ffioedd cyfieithu (os oes angen)
- costau hygyrchedd
- llogi offer
- prynu meddalwedd priodol neu hyd at flwyddyn o ddefnydd o lwyfan ar-lein

## Rhagor o wybodaeth

Dim ond costau teithio a threuliau i unigolion sy'n chwarae rhan allweddol yn y cyfarfod y gallwn eu talu (er enghraifft, siaradwr gwadd, hwylusydd).

Nid yw’n gwneud gwahaniaeth a gawsoch arian gennym yn y gorffennol ai peidio. O ddangos bod angen eich prosiect, byddwn ni’n ystyried eich cynnig.

Byddwn ni’n ystyried cynigion gan sefydliadau sydd y tu allan i Gymru sy'n dymuno creu rhwydwaith yng Nghymru. Byddwn ni hefyd yn ystyried cynigion ar gyfer rhwydweithiau sy'n cynnwys sefydliadau y tu hwnt i Gymru yn eu haelodaeth.

## Beth a ddisgwyliwn gennych o roi arian ichi?

Byddwn ni’n gofyn i bawb a gafodd ein harian lunio adroddiad byr am y cyfarfod/gweithgarwch sy'n digwydd. Gallai hyn gynnwys manylion am nifer y bobl a gymerodd ran, y math o sefydliadau a ddaeth, disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd ac amlinelliad o unrhyw gynlluniau at y dyfodol a drafodwyd ar y diwrnod neu wedyn.

## Proses ddewis

Panel o swyddogion y Cyngor fydd yn dewis yr ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd y panel yn cynnwys hyd at 3 Swyddog Datblygu dan gadeiryddiaeth Rheolwr Portffolio.

Gwnawn ein gorau i'ch hysbysu am y penderfyniad erbyn pedair wythnos ar ôl y dyddiad cau.

## Diddordeb?

Cysylltwch â ni i gael y ddolen i'r ffurflen gais am arian strategol:


Amanda Loosemore
Rheolwr Portffolio, Ymgysylltu a Chyfranogi

E-bost: amanda.loosemore@celf.cymru

Ffôn: 01267 230337

Lisa Williams
Cydgysylltydd Tîm, Ymgysylltu a Chyfranogi

E-bost: lisa.williams@celf.cymru

Ffôn: 029 2044 1349


## Dyddiad cau: dydd Mercher 7 Hydref 2020

Wrth lunio eich cyflwyniad, gwnewch yn siŵr bod digon o amser ichi orffen eich prosiect cyn diwedd Mawrth 2021. Ni allwn ariannu unrhyw brosiect sy'n ymestyn y tu hwnt i Fawrth 2021.